



## PROJECT YMCHWIL

### SYLWCH:

- Ni ellir dechrau casglu data heb gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil neu Swyddog Moeseg yr Ysgol fel ei gynrychiolydd.
- Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, dylech ei thrafod gyda'ch goruchwyliwr (yn ofynnol os ydych chi'n fyfyrwr isradd neu ôl-radd) ac yna ei hanfon drwy e-bost, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau perthnasol, i Swyddog Moeseg eich Ysgol, a fydd yn eich cynghori ymhellach.
- 
- Ceir oedi sylweddol cyn cymeradwyo projectau os yw'r cais yn anghyflawn, yn brin o fanylion, neu os caiff ei gyflwyno ar adegau gwyliau.

**Gall gymryd 4-6 wythnos i gael cymeradwyaeth.**

### 1 Manylion yr Ymchwilydd

<b>Staff:</b>	Ie		Nage		<b>Myfyrwyr:</b>	Ie		Nage	
<b>Os Myfyriwr, dewiswch o blith yr isod:</b>									
<b>Is-raddedig</b>		<b>Ôl-radd Hyfforddedig</b>		<b>Ôl-radd Ymchwil</b>					

Enw cyntaf:		Cyfenw:	
Cyfeiriad e-bost:			
Ysgol lle mae'r ymchwil yn cael ei chynnal:			

### 2 Gwybodaeth am y Project

Teitl y project ymchwil:	
<b>Dyddiad dechrau'r ymchwil:</b>	
<b>Dyddiad gorffen yr ymchwil:</b>	

### 3 Manylion goruchwyliwr (os yn berthnasol)

Teitl:		Enw llawn:	
Cyfeiriad e-bost:			

### 4 Nodau ac amcanion y project ymchwil

--

## 5 Ffynhonnell Cyllido'r Ymchwil (os o gwbl):

--

## 6 Cyfranogwyr

Disgrifiwch sampl y cyfranogwyr y cysylltir â hwy ar gyfer y project a faint o gyfranogwyr rydych yn gobeithio eu recriwtio (e.e. 15-25 o oedolion sy'n siaradwyr Cymraeg-Saesneg dwyieithog).
Sut rydych chi'n mynd i recriwtio cyfranogwyr? Byddwch mor fanwl â phosibl. Os yw hynny'n berthnasol, nodwch hefyd a gafwyd y caniatâd angenrheidiol (e.e. oddi wrth brifathro/prifathrawes ysgol).
<b>Sylwch: Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn peidio â datgelu pwy yw'r holl gyfranogwyr.</b>

Ydi'r ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr dan 18 oed neu gyfranogwyr agored i niwed fel arall?	Ydi		Nac ydi	
<b>OS YDI</b> , a fydd y cyfranogwyr hyn yn cael eu goruchwylio gan rywun awdurdodedig (e.e. rhiant neu warcheidwad) bob amser yn ystod casglu data?	Byddant		Na fyddant	
Os <b>byddant</b> , eglurwch sut y bydd y cyfranogwyr yn cael eu goruchwylio. Os <b>na fyddant</b> , eglurwch pam mae angen i'r ymchwil gynnwys data oddi wrth rai dan oed neu oedolion agored i niwed heb eu goruchwylio.				
A yw <b>HOLL</b> aelodau'r tîm ymchwil sy'n casglu data oddi wrth rai dan oed neu agored i niwed heb eu goruchwylio wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?	Do		Naddo	
<b>Sylwer: Os byddwch yn casglu data oddi wrth blant neu oedolion agored i niwed heb eu goruchwylio bydd angen i chi ddangos copi o gymeradwyaeth gan y DBS wrth gyflwyno'ch cais moeseg. Mae angen cadarnhau dilysrwydd DBS drwy gyswilt DBS y coleg.</b>				

<p><b>Potensial o dramgwyddo/achosi trallod i gyfranogwyr.</b></p> <p>A oes posibilrwydd y byddwch yn achosi trallod i gyfranogwyr neu yn eu tramgwyddo o ganlyniad i'ch ymchwil? Os felly, sut rydych yn bwriadu lliniaru'r trallod neu'r tramgwydd? Cyfiawnhewch pam fod y tramgwydd neu'r trallod hwn yn angenrheidiol i'ch ymchwil.</p>
<p><b>Sylwer: Mae'n rhaid i chi nodi fod gan bob cyfranogwr hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.</b></p>
<p><b>Taliadau.</b></p> <p>Yn yr adran hon nodwch a yw'r cyfranogwyr/ymchwilwyr yn cael tâl ac, os ydynt, pwy sy'n rhoi'r tâl.</p>

## 7 Dulliau Ymchwil

<p>Disgrifiwch yn fanwl y dulliau ymchwil a ddefnyddir i gael data o'r sampl (e.e. profion, holiaduron, cyfweiliadau, arsylwi).</p>
<p><b>Sylwer: Lle bo hynny'n ymarferol, dylech gyflwyno copi o ba offer bynnag yr ydych yn bwriadu eu defnyddio (e.e. holiadur/on) gyda'r ffurflen hon, a / neu gysylltiadau ag unrhyw ffurflenni ar-lein a ddefnyddir. Dylid osgoi offer arolygu dienw (fel Instagram a Facebook).</b></p>

## 8 Storio data

<p>Fydd y data yn cael ei storio yn unig ar weinyddion Prifysgol Bangor, ac a fydd yn hygyrch i'r ymchwilydd a'u goruchwyliwr yn unig (os yn berthnasol)?</p>	Bydd	Na fydd
<p>Os NA FYDD, atebwch gwestiynau 8a a / neu 8b fel bo'r angen.</p>		

<p><b>8a</b> Os na chaiff y data ei storio yn unig ar weinyddion Prifysgol Bangor, disgrifiwch ble, sut a pha mor hir y caiff data sensitif ei storio, a pha fesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau bod y data yn cael ei ddiogelu.</p>
<p><b>8b</b> Os yw'r data yn hygyrch i unrhyw un arall, disgrifiwch pwy fydd yn cael mynd at y data (a pham).</p>
<p><b>Sylwer:</b> Dylai holl ddata ymchwil gael eu cadw ar yriant 'M' y Brifysgol ac/neu liniadur wedi'i amgryptio'n briodol (os oes angen cysylltwch â TG am gymorth)</p>

## 9 Cyhoeddi data

<p>Eglurwch pa ddull y disgwylir ei ddefnyddio i gyhoeddi'r data, e.e. erthygl mewn cyfnodolyn, adroddiad ar gyfer corff cyhoeddus - ynteu a fwriedir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer aseiniad ym Mhrifysgol Bangor yn unig (e.e. traethawd hir).</p>
<p><b>Sylwer:</b> Dylid rhoi gwybod i gyfranogwyr sut y rheolir ac y cyhoeddir y data. Dylid rhoi'r wybodaeth hon ar y ffurflen gydsynio.</p>

## 10 Lleoliad ymchwil

Ydi'r project yn cynnwys ymchwil mewn safleoedd (ac eithrio Prifysgol Bangor) sydd angen caniatâd gan berson cyfrifol (e.e., ysgol neu glwb)?	Ydi		Nac ydi	
<b>Os NAC YDI, ewch ymlaen i 11.</b>				
<b>Os YDI, yna llenwch y canlynol:</b>				
Enw a chyfeiriad safle nad yw o fewn Prifysgol Bangor				
Manylion person cyswllt ar safle nad yw ym Mhrifysgol Bangor:				
Enw llawn:		Ffôn		
Post:				
Cyfeiriad:				
E-bost:				
Rhestrwch unrhyw safleoedd ymchwil allanol ar wahân i'r cyntaf:				

--

A yw'r unigolyn/ corff priodol ar y safle y tu allan i PB wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r ymchwil gael ei chynnal?	Ydi		Nac ydi	
<b>Sylwer:</b>				
<b>NI ellir dechrau ymchwil ar safleoedd y tu allan i Brifysgol Bangor nes ceir tystiolaeth bod cytundeb ysgrifenedig wedi'i roi.</b>				

## 11 Ystyriaethau moesegol

Rhaid cyflawni pob ymchwil yn unol â Pholisi Moeseg Ymchwil Prifysgol Bangor. Gwnewch ddatganiad clir a chryno o'r ystyriaethau moesegol a godir gan y project, gan ymateb i bob un o'r cwestiynau isod.

Sut y rhoddir gwybod i'ch cyfranogwyr am ddiben, dulliau a'r defnydd posibl a wneir o'r ymchwil, beth fydd cymryd rhan yn yr ymchwil yn ei olygu, ac os oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r gwaith.
Sut fyddwch chi'n sicrhau y perchir cyfrinachedd deunyddiau a gwybodaeth a gyflenwir gan gyfranogwyr ac na ddatgelir pwy ydynt?
Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pob cyfranogwr yn cydsynio'n wirfoddol i gymryd rhan yn yr astudiaeth?
Sut fyddwch chi'n lleihau i'r eithaf y risg i bobl fydd yn cymryd rhan?
A oes unrhyw ystyriaethau moesegol pellach nad yw'r cwestiynau uchod wedi'u cynnwys? Sut fyddwch chi'n delio â hwy drwy gydol y project?

## 12 Taflen wybodaeth i gyfranogwyr a ffurflen gydsynio

Atodwch gopi o'r canlynol:

- Y ffurflen ganiatâd
- Y daflen wybodaeth i gyfranogwyr

Mae Ffurflen Gydsynio safonol CCaD ar gael ar ein gwe-dudalen. Rydym yn awgrymu eich bod yn ychwanegu gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut y gall cyfranogwyr dynnu'n ôl o'r astudiaeth. Dylai'r daflen wybodaeth i gyfranogwyr ddisgrifio amcanion yr astudiaeth, a hynny mewn 1-3 pharagraff.

## 13 Datganiad

Cadarnhaf fod y wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod yr Ymchwilydd:	
Printiwch eich enw:	
Dyddiad cyflwyno:	

### **Cydsyniad goruchwyliwr (gofynnol os yw'r ymchwilydd yn fyfyrwr):**

Cadarnhaf fy mod wedi adolygu'r ffurflen hon a'r holl ddeunyddiau ategol (e.e. taflen wybodaeth i gyfranogwyr, ffurflen gydsynio) ac y byddaf yn hysbysu Pwyllgor Moeseg Ymchwil CCaD os ceir achos o ymddygiad anfoesegol.

Llofnod y Goruchwyliwr:	
Printiwch eich enw:	
Dyddiad:	